ANABLEDDAU DYSGU AC AWTISTIAETH

BETH YW ANABLEDD DYSGU?

> “Mae anabledd dysgu’n digrifio pobl sy’n cymryd mwy o amser i ddysgu ac mae’n bosibl y bydd angen cymorth arnynt i ddatblygu sgiliau newydd, deall gwybodaeth gymhleth a rhyngweithio â phobl eraill”

Yn ogystal â bod ag anabledd dysgu, mae gan lawer o bobl gyflyrau corfforol neu emosiynol eraill ac efallai y cânt fwy nag un diagnosis. Gallai hyn gael effaith ar y math o gymorth sydd ei angen arnynt neu ar eu teulu yn eu bywyd bob dydd. Mae cyflyrau sy’n gysylltiedig yn agos ag anabledd dysgu yn cynnwys:

- Syndrom Down – cyflwr genetig hyd oes, Syndrom Down yw’r math mwyaf cyffredin o anabledd dysgu. Nid yw Syndrom Down yn cael ei etifeddu ond mae’n digwydd ar hap. Amcangyfrifir y bydd 45% o bobl â Syndrom Down yn datblygu dementia.
- Awtistiaeth a Syndrom Asperger – nid yw awtistiaeth yn anabledd dygu ond mae gan tua hanner y bobl ag awtistiaeth ryw fath o anabledd dysgu. Mae Syndrom Asperger yn fath o awtistiaeth sy’n achosi problemau cyfathrebu ac emosiynol.
- Oedi Datblygiadol Byd-eang – defnyddir y term hwn pan fydd plentyn yn cymryd mwy o amser i gyrraedd cerrig milltir datblygiadol penodol fel dysgu i gerdded, siarad neu ryngweithio’n gymdeithasol na phlant eraill o’r un oedran. I rai, gall yr oedi fod yn fyrdymor ac mae modd ei ddatrys gyda chymorth ychwanegol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gall yr oedi fod yn sylweddol a bydd angen cymorth parhaol ar y plentyn a allai fod yn arwydd bod ganddynt anabledd dysgu.
- Ymddygiad Heriol – gall hyn gynnwys ffrwydradau, taro neu gicio pobl eraill neu bobl yn brifo eu hunain. Caiff ymddygiad ei ystyried yn heriol os yw’n niweidiol i’r unigolyn a phobl eraill o’i gwmpas. Mae Canolfan Ymchwil Hester Adrian ym Manceinion yn adrodd y bydd ymddygiad heriol gan oddeutu 1 o bob 7 o bobl ag anabledd dysgu. Bydd cynifer ag 1 o bob 18 ag ymddygiad heriol ‘mwy anodd’.

PWY SY'N CAEL EI EFFEITHIO A SUT?

YNG NGHYMRU

Weithiau, mae'n anodd adnabod anabledd dysgu adeg geni ac efallai na fydd modd gwneud diagnosis tan 4 neu 5 oed. Fodd bynnag:

- Yn seiliedig ar fodel Amcanestyniad Data Daffodol Llywodraeth Cymru, amcangyfrifir, ymysg poblogaeth gyffredinol Cymru, bod 21 o bob 1,000 o bobl ag anabledd dysgu.
  - O'r rhain, mae gan 16 o bob 1,000 o bobl anabledd dysgu ysgafn, ac;
  - Mae gan 5 o bob 1,000 o bobl anabledd dysgu difrifol.
- Yng Nghymru, rhagamcanir y bydd gan 2.8 o bob 1,000 o bobl 65+ oed anabledd dysgu cymedrol/difrifol, o'i gymharu â 5.5 o bob 1,000 i'r rhai 18 – 64 oed. Mewn geiriau eraill, mae cyfran y boblogaeth 65+ oed sydd ag anabledd dygu cymedrol neu ddifrifol yn fwy neu lai hanner y ffigur ar gyfer oedolion iau na 65 oed.
- Yng Nghymru yn 2014-2015 roedd defnyddwyr hysbys gwasanaethau anableddau dysgu yn cynrychioli tua 82% o'r nifer amcanol ag anabledd dysgu cymedrol/difrifol.

YM MAE'R GORLLEWIN

Ym Mae'r Gorllewin amcangyfrifir y bydd cyfanswm o 14,264 o bobl ag anabledd dysgu (Daffodil, 2015).

PEN-Y-BONT AR OGWR: 3,860 O BOBL
(1,210 0–17 oed a 2,650 18+ oed)



CASTELL-NEDD PORT TALBOT: 3,805 O BOBL
(1,172 0–17oed a 2,633 18+ oed)



ABERTAWE: 6,599 O BOBL
(1,946 0–17 oed a 4,653 18+ oed)

- Mae llawer o blant, pobl ifanc ac oedolion ag anabledd dysgu ysgafn/cymedrol yn gallu ymdopi â bywyd bob dydd heb gymorth.
- Mae peth tystiolaeth i ddangos bod cyfradd uwch o anableddau dysgu difrifol yn y boblogaeth Asiaidd Prydeinig (Emerson et al, 1990).
- Mae astudiaethau'n dangos bod pobl ag anabledd dysgu yn dioddef gydag iechyd gwaelach na'r boblogaeth gyffredinol. Mae ymchwil gan y Sefydliad Ymchwil Iechyd ym Mhrifysgol Caerhirfryn yn dangos bod pobl ag anabledd dysgu mewn mwy o berygl o farw'n gynnar. Mae astudiaethau wedi dangos bod y perygl o farw cyn 50 oed yn 58 gwaith uwch nag yn y boblogaeth gyffredinol.
- Clefydau anadlu yw'r prif achos o farwolaeth i'r rhai sydd ag anableddau dysgu, wedi'u dilyn gan glefyd coronaidd y galon.
- Mae pobl ag anabledd hefyd yn fwy tebygol o ddatblygu cyflyrau eraill fel dementia cynnar, epilepsi a phroblemau iechyd meddwl.
- Mae gordewdra'n fwy cyffredin i'r rhai sydd ag anabledd dysgu nag yn y boblogaeth gyffredinol.
- Mae pobl ag anabledd dysgu yn fwy agored i allgáu cymdeithasol a gwahaniaethu.

PWY SY'N CAEL HELP A PHA GYMORTH SYDD AR GAEL?

ADDYSG:

	Anhawster Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu	Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig	Anhawster Dysgu Cymedrol	Anhawster Meddygol Corfforol	Anhawster Ymddygiadol, Cymdeithasol ac Emosiynol
Pen-y-bont ar Ogwr	17	119	27	14	43
Castell-nedd Port Talbot	89	158	236	22	51
Abertawe	400	282	278	133	95

	Anhawster Dysgu Difrifol	Anhawster Dysgu Dwys a Lluosog	Nam ar y Clyw	Anhawster Dysgu Cyffredinol	Nam ar y Golwg
Pen-y-bont ar Ogwr	69	45	4	10	2
Castell-nedd Port Talbot	70	23	16	2	10
Abertawe	74	48	37	31	28

	Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd	Dyspracsia	Dyslecsia	Nam Amlsynnwyr	Dyscalcwlia
Pen-y-bont ar Ogwr	9	1	3	0	0
Castell-nedd Port Talbot	0	1	21	0	0
Abertawe	17	6	5	4	0

RHAGLEN TRAWSNEWID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol gyda'r bwriad o drawsnewid y systemau ar wahân ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion ac anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn addysg bellach, i greu system unedig ar gyfer cefnogi dysgwyr 0-25 oed ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Deddfwriaeth newydd Rhagfyr 2016: Cyflwynwyd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys (Cymru) a chanllawiau statudol i gefnogi'r Rhaglen Trawsnewid.

CYFANSWM NIFER Y CLEIENTIAID ANABLEDD DYSGU (18+ OED) SY'N DERBYN GWASANAETHAU YN YSTOD Y FLWYDDYN

	2012 - 2013	2013 - 2014	2014 - 2015
Pen-y-bont ar Ogwr	444	445	410
Castell-nedd Port Talbot	598	614	652
Abertawe	743	768	766

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn helpu ychydig dros hanner y boblogaeth anabledd dysgu sy'n oedolion i fyw gartref gyda gofalwyr teuluol. Fodd bynnag, mae bwlch yn ein dealltwriaeth o anghenion cymorth y gofalwyr teuluol hyn.

Mae'n hysbys yn anecdotaidd bod nifer gynyddol o bobl hŷn yn parhau i ofalu am eu plant sy'n oedolion ag anabledd dysgu. Mae prinder data o safon ar y pwnc hwn ac mae'n fwlch data dynodedig. Byddai'n wybodaeth werthfawr er mwyn cynllunio gwasanaethau ar gyfer cleientiaid ag anabledd dysgu sy'n heneiddio ac yn byw gartref ac nid yw eu rhieni'n gallu gofalu amdanynt mwyach.

NIFER Y LLEOLIADAU CYMUNEDOL YN EU CARTREF EU HUNAIN I BERSONAU (OED 16+) SYDD AG ANABLEDD DYSGU

	2012 - 2013	2013 - 2014	2014 - 2015
Pen-y-bont ar Ogwr	44	39	48
Castell-nedd Port Talbot	96	17	8
Abertawe	136	121	111

Mae cyfradd y lleoliadau cymunedol yn eu cartrefi eu hunain i bobl ag anabledd dysgu 16 oed a hŷn yn sylweddol is yng Nghastell-nedd Port Talbot nag mewn ardaloedd eraill Bae'r Gorllewin. Yn aml mae gofal preswyl yn cael ei ystyried o hyd fel y dewis cyntaf yn hytrach nag archwilio dewisiadau eraill i sicrhau bod pobl yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain.

NIFER Y CLEIENTIAID ANABLEDD DYSGU (18+ OED) A GEFNOGIR YN Y GYMUNED YN YSTOD Y FLWYDDYN

	2012 - 2013	2013 - 2014	2014 - 2015
Pen-y-bont ar Ogwr	380	388	354
Castell-nedd Port Talbot	446	458	490
Abertawe	672	686	726

Ers y 1980au hwyr bu'n bolisi cyhoeddus i sichrau bod pobl ag anabledd dysgu yn cael eu cefnogi yn y lleoliadau cymunedol yn hytrach na mewn mathau sefydliadau o ofal megis ysbytai arbennig, gofal preswyl a gofal nyrsio.

NIFER Y CLEIENTIAID ANABLEDD DYSGU (18+ OED) A GEFNOGIR YN Y GYMUNED YN YSTOD Y FLWYDDYN

	2012 - 2013	2013 - 2014	2014 - 2015
Pen-y-bont ar Ogwr	116	104	86
Castell-nedd Port Talbot	98	88	90
Abertawe	129	118	147

Gall gofal seibiant fod yn ddarpariaeth allweddol i gefnogi pobl ag anabledd dysgu sy'n parhau i fyw gartref gyda pherthnasau neu bobl eraill. Gall seibiant effeithiol atal yr angen ychwanegol i bobl ag anabledd dysgu gael gofal mewn lleoliad mwy ffurfiol fel byw â chymorth neu ofal preswyl/nyrsio.
Yn gyffredinol ar draws Bae'r Gorllewin erbyn 2014-2015, mae awdurdodau lleol yn darparu ychydig mwy o ofal seibiant o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.

TREFNIADAU BYW AR GYFER OEDOLION AG ANHAWSTER DYSGU

Pen-y-bont ar Ogwr		Castell-nedd Port Talbot		Abertawe	
2006 - 2007	2014 - 2015	2006 - 2007	2014 - 2015	2006 - 2007	2014 - 2015
31	-	-	-	8	-
-	2	5	2	14	3
7	12	68	76	94	94
115	148	77	96	182	317

- Nifer y cleientiaid AD 18+ oed yng ngofal preswyl yr awdurdod lleol fel yn 31 Mawrth (PM2)
- Nifer y cleientiaid AD 18+ oed yng ngofal nyrsio'r sector annibynnol fel yn 31 Mawrth (PM2)
- Nifer y cleientiaid AD 18+ oed yng ngofal preswyl y sector annibynnol fel yn 31 Mawrth (PM2)
- Nifer y cleientiaid AD 18+ oed mewn llety â chymorth fel yn 31 Mawrth

CYMORTH HYBLYG A CHYMORTH MEWN LLETY SEFYDLOG 2015-2016

	Pen-y-bont ar Ogwr	Castell-nedd Port Talbot	Abertawe
Derbyniwyd gwasanaeth cymorth hyblyg	Unable to provide	238	-
Derbyniwyd cymorth mewn llety sefydlog	154	85	-
Nifer y gwrywod a menywod	Gwryw - 82 Menyw -72	Gwryw – 166 Menyw - 157	-
Faint oedd wedi nodi anabledd dysgu fel prif angen	154	122 yn derbyn Gwasanaeth 'yn benodol' ar gyfer Anableddau Dysgu fel Prif Angen	-
Faint oedd wedi nodi anabledd dysgu fel angen eilaidd	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	-
Faint oedd wedi nodi anabledd dysgu fel angen trydyddol	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi	-

Mae 201 ychwanegol o Ddefnyddwyr Gwasanaethau yn derbyn Gwasanaeth Pan-anabledd, ac mae'r rhai Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl a/neu Anableddau Corfforol neu Synhwyraidd yn cael eu cefnogi'n gyfartal.

Mae gwasanaethau dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi bod yn canolbwyntio mwy a mwy ar gefnogi anghenion pobl hŷn ag anabledd dysgu gan fod y boblogaeth wedi heneiddio. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau dydd arbenigol wedi cael eu datblygu ar gyfer pobl hŷn ac mae cynllun Rhannu Bywydau wedi cael ei ddatblygu i gynnig amgylchedd mwy cartrefol i bobl fel dewis arall i fathau o gymorth preswyl.

CLEIENTIAID AD 65+ OED SY'N DERBYN GWASANAETHAU (BLWYDDYN GYFAN)

	2006 2007	2007 2008	2008 2009	2009 2010	2010 2011	2011 2012	2012 2013	2013 2014	2014 2015
Pen-y-bont ar Ogwr	38	39	38	31	39	45	52	53	40
Castell-nedd Port Talbot	26	36	33	42	45	54	58	68	75
Abertawe	85	69	62	67	76	81	84	91	86

MODELAU GWASANAETHAU DYDD

- Mae ffurflenni statudol blynyddol cyfredol yn rhoi modd i awdurdodau lleol adrodd ar ddefnydd 'gofal dydd cymorth cymunedol' yn ogystal â gofal dydd mewn canolfan. Mae gofal dydd cymorth cymunedol yn cael ei ddarlunio fel gofal dydd sy'n hywrwyddo lefelau uwch o annibyniaeth trwy wella sgiliau pobl ag anabledd dysgu, fel sgiliau gweithle, hyfforddiant teithio.

- Ar draws Bae'r Gorllewin, gallai fod dulliau gwahanol o gofnodi ac adrodd ar fathau o ofal dydd. Tra bod Castell-nedd Port Talbot yn adrodd dim gofal dydd cymorth cymunedol, mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynyddu'r ddarpariaeth hon ac mae Abertawe wedi'i lleihau. Ar y llaw arall, mae CNPT wedi lleihau gofal dydd traddodiadol ond mae Abertawe wedi'i gynyddu.

- Yn 2006-2015 ar draws Bae'r Gorllewin adroddwyd bod ychydig llai o oedolion ag anabledd dysgu yn derbyn gofal dydd o unrhyw fath. Mae'n bosibl bod yr elfen gofal dydd o fyw â chymorth heb gael ei chofnodi na'i hadrodd, ac felly, efallai fod nifer y bobl sy'n derbyn gofal heb gael ei hadrodd yn ddigonol.

GWASANAETHAU PRESWYL ARBENNIG AC ASESIADAU ACIWT – ARDAL PABM

Uned Asesu a Thriniaeth Aciwt ar gyfer Anableddau Dysgu		
Uned Asesu a Thriniaeth Aciwt Llwyneryr	Uned Asesu a Thriniaeth Aciwt Llwyneryr Heol Clasemont, Trefo-rys, Abertawe SA6 6AH FFÔN: 01792 784012	8 gwely gofal heb ei drefnu i bobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl neu ymddygiadol. Darparu gofal na ellir ei ragweld na'i gynllunio yn rhesymol ymlaen llaw neu rhaid ei ddarparu dros nos neu yn ystod y penwythnos.
Gwasanaeth Preswyl Arbennig		
Swn-yr-Afon	Brynteg Nant-y-Cafn Blaendulais SA10 9ET FFÔN: 01639 702906	Uned 5 gwely ar gyfer arhosiad hirach i bobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl neu ymddygiadol.
Dan-y-Deri	151 Heol Clasemont Treforys Abertawe SA6 6AH FFÔN: 01792 784024	Uned 5 gwely ar gyfer arhosiad hirach i bobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl ac ymddygiadol.
Dan-y-Bont	Waterhall Road Mynydd Cynffig Pen-y-bont ar Ogwr CF33 6HA FFÔN: 01656 746987	5 gwely arhosiad hirach i bobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl neu ymddygiadol.
2014-2015: Roedd cyfanswm o 69 o dderbyniadau i wasanaethau preswyl arbenigol. Daeth 18 (26%) o ardal Bae'r Gorllewin. Yn ystod 2015-2016: Roedd cyfanswm o 54 o dderbyniadau. Daeth 12 (22%) o ardal Bae'r Gorllewin.		

PETHAU MAE POBL WEDI'U DWEUD SYDD O WIR BWYS IDDYNT

GWYBODAETH:

- Sicrhau gwybodaeth fwy hygyrch a hawdd i'w darllen am weithgareddau cymdeithasol, iechyd, cymuned a thai
- Rhannu gwybodaeth yn well rhwng pobl broffesiynol i roi'r newyddion diweddaraf i bobl ac i osgoi dryswch
- Gwella mynediad i dechnoleg a darparu hyfforddiant ar sut i'w defnyddio
- Darparu cyfeirlyfr gwybodaeth sy'n nodi'r gwasanaethau sydd ar gael

CYMUNED LEOL:

- Gwneud cyfleusterau lleol yn fwy addas i gefnogi pobl anabl
- Addysgu pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau fel gweithgareddau hamdden a chludiant cyhoeddus i gael gwell dealltwriaeth o'r heriau a wynebir gan bobl ag anableddau dysgu

ANNIBYNIAETH:

- Cefnogi ffrindiau a theulu, ac yn arbennig, rhoi cyfleoedd iddynt ‘gael hoe’
- Datblygu gweithgareddau cymunedol i gefnogi pobl ag anabledd dysgu
- Rhoi cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli neu waith â thâl i wneud cyfraniad i gymdeithas
- Helpu pobl i deimlo’n ddiogel mewn cymunedau i gefnogi annibyniaeth

PONTIO:

- Gwella trefniadau i bobl ifanc er mwyn eu cefnogi’n well wrth iddynt dyfu’n oedolion

PA NEWIDIADAU Y MAE'N RHAID I NI GYNLLUNIO AR EU CYFER?

NEWIDIADAU YN Y BOBLOGAETH A NEWIDIADAU DISGWYLIEDIG YN NIFER YR ACHOSION

NIFER DDISGWYLIEDIG Y PLANT A PHOBL IFANC AG ANABLEDD DYSGU



Mae gwell gofal i'r newydd-anedig yn golygu bod mwy o fabanod cynamserol yn goroesi. Mae gan y plant hyn debygolrwydd uchel o gael anableddau difrifol a lluosog, gyda 97% o'r rhai ag anabledd yn dioddef anabledd niwrolegol neu ddeallusol.

PREDICTED CHILDREN AND YOUNG PEOPLE WITH A LEARNING DISABILITY

	2015	2020	2025	2030	2035
Pen-y-bont ar Ogwr	2,650	2,708	2,750	2,796	2,855
Castell-nedd Port Talbot	2,633	2,645	2,650	2,667	2,696
Abertawe	4,653	4,796	4,918	5,057	5,208

Er bod niferoedd y bobl ag anabledd dysgu cymedrol neu ddifrifol yn debygol o godi hyd at 2035, mewn gwirionedd, fel cyfran o gyfanswm y boblogaeth, disgwylir i'r niferoedd hynny ostwng.

- Anghydraddoldebau o ran ansawdd bywyd a marwolaeth – mae tystiolaeth hanesyddol yn dangos bod gofal meddygol anhwylderau corfforol y rhai ag anabledd dysgu (a'r rhai â phroblemau iechyd meddwl) wedi bod yn llai na digonol. Mae'r GIG wedi rhoi sylw i hyn yn y blynyddoedd diwethaf ond mae rhai problemau'n ymwneud ag etifeddiaeth yn parhau.
- Mae galw am wasanaeth llety 52 wythnos i blant ag anableddau ym Mae'r Gorllewin.
- Cynllunio ar gyfer pontio. Bydd hyn yn rhoi modd i ni adnabod pobl 14+ oed yn gynnar a rhannu gwybodaeth amdanynt i gynllunio ar y cyd ar gyfer y pontio rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.
- Mae pobl hŷn ag anableddau dysgu'n byw'n hirach, gan gynnwys y rhai ag anableddau dysgu lluosog. Mae 'na boblogaeth sy'n heneiddio hefyd ac mae'r ffactorau hyn gyda'i gilydd yn golygu bod 'na boblogaeth sy'n cynyddu ac yn heneiddio.

- Mae rhagfynegiadau'n dangos i ni y byddwn yn gweld cynnydd bach yn nifer y bobl hŷn ag anabledd cymedrol neu ddifrifol. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd rhaid i wasanaethau ystyried anghenion cysylltiedig ag oedran defnyddwyr gwasanaethau fel dementia ac eiddilwch corfforol.

- Defnyddio Taliadau Uniongyrchol – er bod y defnydd o daliadau uniongyrchol wedi cynyddu ar draws Bae'r Gorllewin ymhlith cleientiaid 18+ oed ag Anabledd Dysgu, nid oes llawer iawn o achosion wedi'u cofnodi ymysg pobl 65+ oed sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol yn y ffordd hon.

- Mae modelau cynaliadwy o fyw â chymorth yn rhoi modd i ni barhau â'n dull o gefnogi pobl mewn tenantiaethau. Bydd hyn yn golygu symud i ffwrdd o'r model 24/7 tuag at drefniant mwy cymysg. Bydd newid i'r maint priodol hefyd yn ein helpu i symud adnoddau yn y model hwn.

- Technoleg gynorthwyedig – archwilio potensial mewn lleoliadau byw â chymorth i ryddhau adnoddau a wariwyd ar gymorth yn ystod y nos.

- Ailfodelu gwasanaethau dydd i gefnogi mwy o bobl yn y gymuned ac i helpu pobl i gael gwaith trwy ddatblygu mentrau cymdeithasol i leihau dibyniaeth ar fathau traddodiadol o ofal dydd.

- Seibiant – rhaid ystyried dosbarthiad adnoddau i ateb anghenion yn well ar draws yr ardal.

AWTISTIAETH

BETH YW AWTISTIAETH?

> “Mae awtistiaeth yn gyflwr gydol oes. Gall rhywun fod ag awtistiaeth ysgafn, cymedrol neu ddifrifol, ac felly, weithiau, mae’n cael ei gyfeirio ato fel sbectrwm neu anhwylder yn y sbectrwm awtistig (ASD)”

Nid yw awtistiaeth yn anabledd dysgu ond mae’n bosibl bod tua hanner y bobl sydd ag awtistiaeth ag anabledd dysgu hefyd.

- Mae tair nodwedd gyffredin i awtistiaeth, a allai effeithio ar y ffordd mae rhywun yn:

- gallu cyfathrebu ag eraill
- meddwl am sefyllfaoedd cymdeithasol ac yn delio â nhw.
- “Mae syndrom Asperger yn fath o awtistiaeth sydd hefyd yn achosi problemau cyfathrebu ac emosiynol. Fodd bynnag, mae pobl â syndrom Asperger yn aml yn cael llai o broblemau wrth siarad ac maen nhw’n llai tebygol o fod ag anabledd dysgu”.

FFYNHONNELL

(Mencap: https://www.mencap.org.uk/learning-disability/explained/conditions/autism-and-aspergers-syndrome)

PWY SY'N CAEL EI EFFEITHIO A SUT?

Mae tua 700,000* o bobl yn y DU ar y sbectrwm awtistig. At ei gilydd gyda'i teuluoedd maen nhw ymhlith tua 2.8 miliwn o bobl y mae eu bywydau yn cael eu heffeithio gan awtistiaeth bob dydd.

YM MAE'R GORLLEWIN:

Nifer ddisgwyliedig y bobl 0-17 oed gydag unrhyw anhwylder ar y sbectrwm awtistig			
% y newid mewn gwerthoedd rhwng y flwyddyn gychwynnol a'r flwyddyn gymharu			
Awdurdod Lleol	**2015**	**2035**	**Gwahaniaeth Absoliwt**
Pen-y-bont ar Ogwr	338	326	- 12
Castell-nedd Port Talbot	327	308	- 19
Abertawe	544	563	+ 19
Cymru	7,326	7,299	- 27
Bae'r Gorllewin	1,209	1,197	- 12

- Ni fydd angen cymorth arbenigol ar bawb sydd â diagnosis ar y sbectrwm awtistig i gynnal eu hannibyniaeth.

- Mae gwell adnabyddiaeth o bobl ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig a'r gwell fframwaith diagnostig yn golygu bod nifer y bobl sydd â diagnosis o ASD yn cynyddu.

- Yn aml mae teuluoedd sydd â phlant a phobl ifanc ag ASD yn wynebu heriau penodol wrth i'w plentyn aeddfedu. Mae'n hanfodol bwysig bod 'na amrywiaeth o wasanaethau ymyrryd a chymorth cynnar yn ogystal â gwasanaethau arbenigol i'r plant hynny ag anghenion mwy cymhleth i gefnogi teuluoedd adeg diagnosis ac wrth iddynt droi'n oedolion.

- Mae teuluoedd sydd â phlant a phobl ifanc ag ASD o dan bwysau sylweddol. Mae delio â phroblemau'n ymwneud â hylendid personol eu plentyn, plant yn bwyta diet cyfyngedig, yr angen am ofal a sylw parhaus a threulio sawl awr ar ddi-hun yn ystod y nos yn ei gwneud yn anodd i rieni/gofalwyr aros mewn cyflogaeth. Yn yr achosion hyn, mae methiant perthynas rhieni yn eithriadol o uchel (85%).

- Mae rheoli apwyntiadau lluosog, materion cysylltiedig ag addysg a gwyliau ysgol yn heriol iawn i gleifion/gofalwyr ac yn aml maen nhw'n teimlo'n euog oherwydd nid ydynt ar gael ar gyfer eu plant eraill. Gall rhieni gyfyngu pobl ifanc trwy beidio â'u caniatáu i fod yn gymdeithasol actif a hunan-ddibynnol ac mae angen iddynt gael cymorth er mwyn i'w plant feithrin annibyniaeth (Ymarfer Mapio ASD Pen-y-bont ar Ogwr – angen dolen).

- Mae Arolwg 2016 o dros 2,000 o bobl wedi cael ei gynnal gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth ac mae'n dangos mai dim ond 16% o oedolion ag awtistiaeth sydd mewn gwaith amser llawn â thâl.

- Nid oes cofnod o nifer y bobl ag awtistiaeth sy'n derbyn cymorth ym Mae'r Gorllewin.

Mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a chymorth i'r rhai sy'n byw ag awtistiaeth ledled Cymru.

- Mae wyth gwasanaeth preswyl yn Ne Cymru i bobl wedi'u heffeithio gan awtistiaeth. Mae dau yng Nghaerllion a chwe yn ardal Castell-nedd. Mae'r gwasanaethau preswyl yn rhoi amgylchedd i bobl ag awtistiaeth lle gallant ddysgu sgiliau newydd, bod yn fwy hyderus a chynyddu eu hannibyniaeth i fod yn aelodau llawn ac actif o'r gymuned leol.

- Yn ogystal â hyn, mae chwe 'chanolfan ddydd' yn Ne Cymru lle gall oedolion ag awtistiaeth fynd i gael cymorth, i gymdeithasu ac i ddysgu sgiliau newydd. Mae dwy o'r canolfannau hyn wedi'u lleoli ym Mae'r Gorllewin. Tŷ Morgannwg yng Nghastell-nedd a Llys y Felin yn Abertawe.

- Mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru hefyd yn darparu gwyliau byr a seibiant, Gwasanaeth Allgymorth Prifysgol i gefnogi myfyrwyr â Syndrom Asperger, gwasanaeth allgymorth un i un ar gyfer plant ac oedolion a phrosiectau yn y gymuned.

PA NEWIDIADAU Y MAE'N RHAID I NI GYNLLUNIO AR EU CYFER?

- Er bod y data'n awgrymu y bydd y cynnydd mewn niferoedd yn fach, bydd y lefelau angen a'r gwasanaethau sydd eu hangen yn cael effaith amlwg ar y gyllideb.
- Symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu a gweithredu asesiadau amlddisgyblaethol i sicrhau bod modelau gofal a chymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ymateb yn gyfannol i anghenion iechyd, gofal cymdeithasol a chymorth yr unigolyn.
- Trefniadau pontio effeithiol, amserol a seiliedig ar ganlyniadau, yn enwedig rhwng gwasanaethau plant a phobl ifanc a gwasanaethau oedolion ond hefyd o wasanaethau oedran gweithio i wasanaethau pobl hŷn.
- Meintiau cywir pecynnau gofal – newid pwyslais yr ymarfer i ganolbwyntio ar ddatblygu modelau cymorth sy'n annog annibyniaeth, cofleidio atal, ymyrryd yn gynnar a dewisiadau llai cyfyngol.
- Newid o ymarfer ofn-risg i ymarfer cyfatebol rheoli risg a fydd yn gwella canlyniadau a lleihau costau.
- Mabwysiadu model 'dilyniant' sy'n cefnogi pobl i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth.
- Datblygu'r farchnad i ddatblygu'r llwybr gofal cyfan, darparu dewisiadau eraill i ofal preswyl a chynyddu dewisiadau gyda phartneriaid iechyd a thai.
- Datblygu gwasanaethau personol, cwmnïau cydweithredol cymdeithasol a chyfleoedd i ddysgu sgiliau wedi'i hwyluso gan fwy o ddefnydd o daliadau uniongyrchol.
- Rheoli'r pontio'n fwy effeithiol rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.
- Datblygu teleofal a theleiechyd ymhellach i hyrwyddo a chynnal annibyniaeth pobl.
- Ailfodelu gwasanaethau i symud i ffwrdd o wasanaethau sefydliadau traddodiadol i hyrwyddo annibyniaeth, gan ganolbwyntio ar leihau dibyniaeth ac angen a defnyddio cymorth naturiol yn y gymuned.



WESTERN BAY

POPULATION ASSESSMENT REPORT

www.westernbay.org.uk